Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem / Item | Dyddiad / Date |
|---|---|
| 34.4 | 24ain o Ebrill 2023 |

| Teitl / Title | Er / For |
|---|---|
| Cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 | *Penderfyniad* |

**Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues**

Mae papurau wedi'u cyflwyno'n flaenorol i aelodau'r BGC ynglŷn â'r broses o ddatblygu'r Asesiad o Lesiant Lleol a chymeradwyo'r Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 yn barod ar gyfer cyhoeddi ym mis Mai 2023.

**Cymeradwyaeth y Cynllun Terfynol**

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ar y 6ed o Fawrth 2023, roedd yn ofynnol i bob aelod statudol o'r BGC gymeradwyo'r Cynllun trwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn i'r Bwrdd rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r Cynllun yn y cyfarfod yma. Cafodd diwygiadau i'r Cynllun yn dilyn y cyfnod ymgynghori hefyd eu cytuno gan y Bwrdd fel rhan o'r cyfarfod ar y 6ed o Fawrth 2023.

Cafodd Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyo yng nghyfarfodydd Bwrdd yr aelodau statudol ar y dyddiadau isod.

| Aelod BGC | Bwrdd/Grŵp | Dyddiad |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu | 22.03.2023 **Wedi'i gymeradwyo** |
| | Cabinet | 04.04.2023 **Wedi'i gymeradwyo** |
| | Cyngor | 20.04.2023 **Yn disgwyl penderfyniad adeg yr adroddiad hwn** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Bwrdd BIPHDd | 30.3.2023 **Wedi'i gymeradwyo** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Awdurdod Tân | 17.04.2023 **Wedi'i gymeradwyo** |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Bwrdd CNC | 12.04.2023 **Wedi'i gymeradwyo** |

Unwaith bydd y partneriaid unigol wedi cytuno ar Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 trwy eu trefniadau llywodraethu arferol, gall y Bwrdd roi cymeradwyaeth derfynol i'r Cynllun gael ei gyhoeddi ar yr 2il o Fai 2023.

Estynnwn ddiolch i'n cyd-weithwyr yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am gynorthwyo â dyluniad terfynol y Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 (Atodiad 1).

**Goblygiadau Ariannol / Financial Implications**

| |
|---|
| D/B |
| **Argymhellion / Recommendations** |
| **A1.** I'r Bwrdd nodi'r sefydliadau partner (uchod) sydd wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 trwy eu trefniadau llywodraethu priodol.<br>**A2.** I'r Bwrdd gymeradwyo fersiwn terfynol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 i'w gyhoeddi ar yr 2il o Fai 2023. |
| **Atodiadau / Attachments** |
| Atodiad 1: Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 |
| **Swyddog Adrodd / Reporting Officer** |
| Naomi McDonagh |